CANLLAW DEFNYDDIWR

Croeso i COBWEBS – Gwefannau Cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr!

"Ein Cymuned – ar y We – ar ein cyfer ni"

Ein gwefan yw **http://www.cobwebs.uk.net**

Canllaw syml yw hwn ar sut i ddefnyddio cyfeiriadur ar-lein COBWEBS ac fe fydd yn eich helpu i ymuno yn y fenter.

Os gwelwch fod angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd wahanol:

E-bost cobwebs@bridgend.gov.uk

Post
Cobwebs,
Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Pen-y-bont ar Ogwr,
Coed Parc,
Stryd y Parc,
Pen-y-bont ar Ogwr.
CF31 4BA

Ffôn (01656) 661813

Ffacs (01656) 645719

DECHRAU ARNI

Gan ddefnyddio eich cysylltiad Rhyngrwyd ar gyfrifiadur, byddwch yn agor y wefan ar gyfer Cobwebs ym mhorwr y we.



Teipiwch **http://www.cobwebs.uk.net**
a chliciwch **Go**

Bydd hyn yn agor y sgrîn briodol.

Adwaenir hwn fel yr **adref**.

Oddi yma gallwch chwilio neu bori tudalennau'r wefan. Gallwch naill ai:

- Weld/chwilio'r rhestrau ar Cobwebs
- Gwneud cais am eich safle eich hun
- Golygu eich safle
- Gweld gwybodaeth am y prosiect
- Mynd i gysylltiadau defnyddiol eraill

Er mwyn gweld y rhestrau ar Cobwebs, cliciwch y cyswllt

"**Ewch i safleoedd Cobwebs Ar-lein**"

ac eir â chi i'r sgrîn rhestrau.



Yma gallwch chwilio drwy'r rhestrau i weld pa glybiau, cymdeithasau, elusennau a grwpiau sydd wedi eu cynnwys. Unwaith y dowch o hyd i rywbeth sydd o ddiddordeb, cliciwch ar y cyswllt a bydd eu manylion sydd wedi eu rhestru yn ymddangos, ynghyd â'u gwybodaeth.

*Os dymunwch chwilio am rywbeth arbennig, cliciwch ar y cyswllt **"Archwilio'r wefan"** a defnyddiwch y dudalen chwilio i ddod o hyd i'r tudalennau perthnasol.*

GWNEUD CAIS AM EICH SAFLE EICH HUN

Cliciwch ***"Cais am eich safle eich hun"*** ac fe'ch arweinir drwy'r camau sydd eu hangen i wneud cais am eich safle eich hun.



Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn, a byddwch wedi dechrau'r broses o gael eich tudalennau gwe eich hun.

Darllenwch drwy'r amodau a thelerau i weld beth allwch chi ei ddisgwyl a beth sydd yn ofynnol gennych.



Byddwch chi wedyn yn penderfynu a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r telerau. Os cytunwch, byddwch yn gallu parhau gyda'ch cais ar gyfer eich tudalennau gwe eich hun.

Nesaf, gofynnir i chi lenwi manylion eich sefydliad.



Caiff y cyfeiriad e-bost neu gyswllt ffôn ei arddangos ar eich tudalennau gwe. Os oes gennych wefan yn barod, rhowch gyfeiriad y wefan a chaiff ei arddangos ar eich tudalennau gwe fel cyswllt.

Dwyieithog - er nad yw Cobwebs yn cyfieithu eich tudalennau gwe ar eich rhan, bydd dewis dwyieithog fel math iaith yn caniatáu i chi gynhyrchu 2 set o dudalennau gwe, un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg, fel y gall defnyddwyr ddewis ym mha iaith y dymunant weld y tudalennau

Parhewch i ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn. Yna gofynnir i chi i lenwi

- Enw defnyddiwr, a
- Cyfrinair



Nodwch y rhain a chadwch hwy'n ddiogel ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol.

Wedyn byddwch yn derbyn Ffurflen Cytundeb Prosiect, y bydd angen i chi ei hargraffu, ei llenwi a'i dychwelyd i ni, cyn y caiff eich tudalennau gwe eu cyhoeddi ar Cobwebs.



Unwaith y bydd hyn i gyd wedi'i gwblhau gallwch glicio ar y botwm Gorffen, a chewch eich tywys i ddiwedd y broses gais.

Llongyfarchiadau, rydych wedi gwneud cais llwyddiannus i COBWEBS!

YCHWANEGU CYNNWYS I'CH TUDALEN WE

Gofynnir i chi yn awr am eich Enw Defnyddiwr a'ch Cyfrinair.



Unwaith y caiff y rhain eu teipio gallwch ddechrau ychwanegu cynnwys i'ch tudalennau gwe.

Dilynwch a chwblhewch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn.



Gallwch ddilyn y broses hon cynifer o weithiau ag y mynnwch, hyd nes i chi greu'r nifer a ddymunwch o dudalennau.

Unwaith y byddwch wedi gorffen gallwch glicio ar y cyswllt i gael Rhagolwg ar eich gwefan.

Llongyfarchiadau - rydych wedi creu eich tudalen we yn llwyddiannus.



GOLYGU CYNNWYS AR EICH TUDALEN WE

Cliciwch ar y cyswllt *"**Golygu eich safle**"* a chan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn fesul cam gallwch greu a golygu eich tudalennau gwe.



Yna teipiwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair

Bydd eich tudalennau yn ymddangos ar y sgrîn er mwyn i chi allu eu newid/golygu.

Gallwch hyd yn oed ychwanegu rhagor o dudalennau newydd yma hefyd.

Wrth olygu tudalennau gwe – cofiwch eich bod yn golygu yn ôl **Rhif Tudalen**.

Wrth olygu tudalennau gwe fe allwch orfod aros i'r tudalennau newydd i ymddangos ar y wefan.

Peidiwch ag anghofio – os ydych am weld y wefan yn Saesneg ar unrhyw adeg pwyswch y cyswllt ENGLISH.

Cyngor Defnyddiol - os na fyddwch yn logio gyda'ch Enw Defnyddiwr a Chyfrinair yn gywir, bydd angen i chi gau ffenest eich porwr Rhyngrwyd a rhoi cynnig arall arni!

Awgrymiadau ar gyfer Golygu

- Cofiwch mai'r adref yw Tudalen 1
- Nid oes angen rhoi eich enw grwpiau yn Nheitl y Dudalen gan ei fod yn ymddangos ar bob tudalen
- Os ydych am gael eich lluniau eich hun ar eich tudalennau, e-bostiwch hwy at cobwebs@bridgend.gov.uk a byddant yn cael eu llwytho ac ar gael i'w defnyddio gan eich sefydliad yn unig, neu anfonwch gopi o'r llun i gyfeiriaid Cobwebs a byddwn yn ei drosi'n ddelwedd electronig i chi gael ei ddefnyddio
- Rhaid i chi gwblhau pob un o'r 5 cam yn y broses olygu i sicrhau y cedwir unrhyw beth a deipiwyd
- Wrth roi eich enw defnyddiwr, cyfrinair ac enw sefydliad i mewn, nodwch fod y gofod ar gyfer llythrennau fel a ganlyn: 30 bwlch (enw defnyddiwr), 12 bwlch (cyfrinair) a 150 bwlch (sefydliad)
- Po fwyaf o wybodaeth a roddir gennych yn rhan y disgrifiad, hawsaf fydd hi i ddod o hyd i wybodaeth eich grŵp